# Tasg 1

**(Heriol, sbardun 2)**

1. Ticiwch yr atebion cywir.

i. Mae'r darn wedi ei ysgrifennu ar gyfer ...
a. athrawon
b. rhieni
c. pobl ifanc
ch. pobl sy'n gwarchod plant dros yr haf

ii. Beth yw ffurf y darn?
a. traethawd
b. erthygl
c. stori
ch. llythyr

iii. Mae awgrym bod yr awdur yn ...
a. cefnogi prosiectau haf ar gyfer plant a phobl ifanc
b. casáu gwyliau haf hir
c. gweithio fel garddwr weithiau
ch. hoffi gwylio ffilmiau

iv. Mae naws y darn yn ...
a. gyfeillgar
b. barddonol
c. difrifol
ch. trwm

2. Gwnewch restr o'r prosiectau yn y darn. Beth yw'ch barn chi am bob un o'r cynlluniau hyn? Pam?
   Pa un yw'r cynllun gorau yn eich barn chi?

3. Mewn grŵp, meddyliwch am gynllun da ar gyfer plant a/neu bobl ifanc yn eich ardal chi ar gyfer yr haf.

   Gwnewch nodiadau i gofnodi'r manylion, e.e.
   - beth fydd yn digwydd
   - ble bydd y prosiect yn digwydd
   - ar gyfer pa oed
   - ac ati.

4. Paratowch ddarn sy'n rhoi gwybodaeth am y cynllun.